# Pen-blwydd Hapus, Sali Mali

Mae modd canu'r gerdd ar y dôn 'Clap, Clap, un dau tri'

Sali Mali, un, dau, tri,
ffrind i mi a ffrind i ti!
Heddiw yw ei phen-blwydd hi,
dewch 'da ni i ddathlu!

Jac y Jwc a Jac Do,
un yn dal, un ar y to!
Gyda nhw cawn hwyl bob tro,
dewch 'da ni i ddathlu!

Jeli coch a hufen iâ –
dyna beth yw parti da.
Dawnsio, chwerthin, ha ha ha!
Dewch 'da ni i ddathlu!

Sali Mali, ffrind i mi,
Sali Mali, ffrind i ti.
Ym mhob ysgol, ym mhob tŷ,
dewch 'da ni i ddathlu!

**Casia Wiliam**
**Bardd Plant Cymru**



Llun / Simon Bradbury

BARDD PLANT CYMRU
CYNGOR LLYFRAU CYMRU WELSH BOOKS COUNCIL
S4C
Urdd
Llenyddiaeth Cymru Literature Wales
gwales.com
barddas
Gomer
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government